Seminar Serameg
2yp Dydd Sadwrn 1af Chwefror 2014

Claire Curneen | To This I Put My Name
18 Ionawr – 16 Mawrth

Gyda'r seramegwyr Claire Curneen, Anne Gibbs ac Ingrid Murphy

A'i gadeirio gan Catherine Roche, artist, ysgrifennydd a darlithiwr. Ysgrifen gan Catherine Roche

---

Mae gwagle bwaog Oriel Mission yn leoliad pwerus i waith diweddaraf Claire Curneen, cast o ffigyrau serameg wedi eu modelu'n gywrain lle mae eu presenoldeb tawel ond trawiadol yn cynnig adlewyrchiadau teimladwy ar y natur ddynol a'n lle enbydus ynddo.

Datblygwyd dros dwy flynedd, terfyniad yw'r arddangosfa o brosiect Gwobr Llysgennad Cyngor Celfyddydau Cymru, wedi eu gynorthwyo gan Oriel Mission a Chanolfan Grefft Rhuthun, lle agorir yn Mawrth. Yn wreiddiol, ymatebodd Curneen i gasgliadau Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon, Dulyn, lle darparir y gwerthoedd cynhyrchu, deunyddiau a naratifau ei harteffactau dewisol cyfoeth o ysbrydoliaeth. Tra'n artist preswyl yn Oriel Mission, roedd arlunio yn chwarae rhan bwysig yn ddatblygiad ei hymchwil; cynniga wâl stiwdio Curneen swp o gyseiniant tyner a perthnasau rhwng darluniau llinellol dwrog neu tywyllwch felfetaidd a ffotograffau o'r gwrthrychau amgueddfa. Cafodd gwybodaeth ei rannu a'i ail siapio, ymddengys syniadau fel darnau adleisiol. dynol cyfwerth. Sianel yw arlunio i'r artist, y trawsnewidiad rhwng syniadau hylifol ac ymadroddion corfforol.

Mae teitl yr arddangosfa, To This I Put My Name, yn dawel sicr: datganiad awdurdod a derbyniad, yn adlewyrchu aeddfedrwydd tawel y gwaith newydd ac efallai sefydliad pendant Curneen. Erys naws arallfydol ei darnau cynharaf, hefyd ei chyfeiriad tuag at naratifau crefyddol a mytholegol sydd yn tanseilio'i hymarfer, ond yma mae yna wrthbwynt. Daw porslen a chrochenwaith caled at ei gilydd; newidiad anniffiniol, gan llwyddo creu tensiwn cynnil. Gyda'r defnydd o ddu daw caledwch: yn gyferbyniol i'w darnau porslen, mae'r ffigyrau yma yn fwy dynol, mwy o'r byd. Awgrymir y deunydd grudlyd cydberthyniad daearol, gyda'r darnau wedi eu gwasgu gan law yn adleisiol o fwd sych, craciog. Ceir deuoliaeth yng nghasgliad cyrff arallfydol, porslen ynghanol y cymeriadau newydd, trwm, a thrwy eu lleoliad pegynol, darganfyddwn ein bod rhywle yn y canol: dengys ansadrwydd a diymadferthwch, ond hefyd y posibliadau o fod.

Tra ymddengys naratifau unigol, thema tanseiliedig 'yw y rhwng' sydd yn treiddio gwaith newydd Curneen. Mae llawer o'r darnau yn dioddef symudiad tawel o gyflwr neu wedi eu dal mewn newidiad gwagleol. Mae yna ymdeimlad o fflwcs. O fewn yr aps, gorwedda ffigwr trawiadol, Portent, yn yr aer; yn lled-orwedd neu codi, corff o densiwn eithafol. Eistedda hebog uwchben, yn arolygu'r lle, yn barod i hedfan; daear ac awyr yn cysylltu trwy'r motif. Ceir cyrff eraill mewn trawsnewidiad, rhai'n fasgedig, clwyfedig, blewog neu â thyfiant arboreal. Eu ffurfiau wedi eu gorchuddio â brigau, yn awgrymu colled ond hefyd adfywiad. Parheir darluniau tyfiant o fewn y trosglwyddiadau addurnol glas: amnaid i etifeddiaeth serameg, wedi eu defnyddio'n wybodus, eu ansefydlogrwydd dan wres yn achosi iddynt slipio, gan gyfeirio at ansicrwydd a newidiad. Mae patrymau blodeuog St.Sebastian yn gwaedu ac ymostyn fel iddynt slipio o'i gorff iddi draed.

Rydym ni'n gweld y ffigyrau serameg yma'n ddynol; mae eu presenoldeb yn ymgorffori gwirionedd argyhoeddiadol ac ingol, ond trwy materioldeb a graddfa atgoffa Curneen ni o'u gwrthrycholdeb a'r traddodiad serameg. Garw a llyfn, addurnol a syml, manwl a chrai yn gweithio gyda'i gilydd o fewn y darnau. Yn eu hymgorfforiad rhyfedd, mae'r ffigyrau clau yn haeru o fewn y gwagle.

Gwagle trawiadol Oriel Mission sydd yn darparu ffocws corfforol i brosiect Curneen; gan greu perthynas rhwng lle, cerflun a gwyliwr. Mae'r diptych Builders yn creu echel am ddeialog rhwng yr elfennau; mae'r law agored yn rhybuddio ac amneidio, yn ein llithio i'r ffram. Cafwyd eu creu fel un darn, pâr ydynt, dyn a menyw. Nid dim ond presenoldeb allweddol o fewn y grwp, ond o fewn lleoliad yr oriel. Maent yn gwylio a tystioli; yn llywio; yn cyfeirio. Mae llawer o ffigyrau Curneen yn tueddu tuag at funud o agosatrwydd, bach ac hunan-atblygol. Er hyn mae'r ffigyrau pridd yn ymestyn a chysylltu. Mae yna naws llonydd i'r gwagle, ond nid anweithrediad ydyw; creïr ffrithiant yn llonyddwch y ffigyrau. Wrth eu grwpio cynydda eu pwer. Mae Curneen yn cyfarwyddo munud ar aros, y rhwng teimlwn ein bod wedi baglu iddo. Gwagle a darfir gan drafodaethau pwerus ond tawel y ffigyrau ac sydd yn ein tynnu oddi tan.

Seminar Serameg
2yp Dydd Sadwrn 1af Chwefror 2014

Gyda'r seramegwyr Claire Curneen, Anne Gibbs ac Ingrid Murphy

Claire Curneen | To This I Put My Name
18 Ionawr – 16 Mawrth

A'i gadeirio gan Catherine Roche, artist, ysgrifennydd a darlithiwr. Ysgrifen gan Catherine Roche

---

y Lle [...] | Ingrid Murphy
7 Ionawr – 16 Chwefror 2014

Mae Ingrid Murphy yn hacio'i ffordd trwy hanes serameg – yn llythrennol. Archwiliodd ei gwaith cynt telynegiaeth ffurf a gwagle wedi ei ysbrydoli gan wrthrychau bywyd llonydd. Er hynny, nawr ymddengys diddordeb cryfach mewn naratif; cyfuna technolegau newydd a gwrthrychau priodol gyda phrosesau traddodiadol, yn cynnig profiad aml-haenog a rhuawdl o arteffactau crefft. Yn isddiwylliant technoleg, mae'r term hacio yn edrych i wella rhywbeth wrth ymyrraeth a gwna Murphy hynny, yn lleoli ei hun yn gyson o fewn ffram y ffurfiau ail weithiol, gan droi'n ymwelwr o'i hymarfer diwylliannol hi. Yn y gyfres Hacking Histories, ehangir manipiwleiddio digidol y ffigyrau diymhongar Sir Stafford, yn rhithiol a chorfforol, newida Murphy eu swydd goddefol ac addurnol, gan ddefnyddio codau QR i ddweud stori serameg cyfoes gydag hiwmor a gweledigaeth.

Gan weithio gydag arteffactau hanesyddol serameg, mae Murphy yn mewnosod realiti estynedig, sganio a printio 3D mewn prosesau crefft traddodiadol. Dengys y fideo maint y profiad o fewn ei hymarfer serameg interactif, o adlewyrchiadau teimladol ar themau personol a chyffredinol i ornest ysgafn rhwng gwrthrychau defnyddiol a naratif. Trwy ei ymyrraeth digidol, cynnigir profiad mwy o wrthrychau serameg, gan ail ffocysu sylw ac ehangu ystyr. Mae Murphy yn cydnabod ei lle mewn traddodiad gwneud hanesyddol; gan ddathlu cyfoeth amrywiaeth, tra'n agor deialog sydd yn cysylltu sgiliau crefft hynaidd gyda thechnoleg ymddangosedig.

Gwneuthurwr Mewn Ffocws | Anne Gibbs
14 Ionawr – 23 Chwefror 2014

Daw islif ansefydlog o gasgliadau rhyfedd serameg Anne Gibbs. Gan weithio gyda tseini asgwrn, mae ei chyfuniadau yn llwyfannu perthnasau anghydweddol sydd yn trigo yn y lle anniffiniol rhwng tirlun, corff a gwrthrych. Wedi eu grwpio ond hefyd yn annibynol, mae'r darnau yn awgrymu tameidiau fforensig neu ffosiliau archeolegol, eu darnau i'w cynnig fel tystiolaeth, wedi eu gosod i fyfyru arnynt. Mae Gibbs yn cloddio a mapio yma, yn darparu cyfeiriadau i lefydd disodledig lle gwrthdarir y mewnol a'r allanol, rhywle dryslyd ond hefyd cyfarwydd. Ffurfiau'n cyfleu tyfiant organig yn gorwedd cyferbyn rhai a gyfleir cyfeiriadau mwy corfforol neu meddygol, blaendor ac ansicr: aelod torredig, organau ailffurfedig, rhydweli wedi rhwygo efallai? Awgrymir naratifau brau, ond mae'r llefydd a greïr Gibbs o fewn fflwcs: llywyddir amwysedd 'y rhwng'. Mae naws o ddeuolrwydd yn allweddol, ac yn y gwaith newydd yma mae'r ddeinamig deuaidd i'w weld yn fwy eithafol. Ceir symudiad tawel rhwng y prydferth a'r hyll, dim un yn gallu honni ei awdurdod drosom ni.

Pwysau, llinell, gwead, graddfa a ffurf sydd yn ofalus ystyried, pob darn yn farc, yn rhwygo'i le o fewn y cyfan. Mae lliw wedi dod yn fwy amlwg; tôn gwelw pastel yn bwrw nodyn melys ac anesmwyth. Cynhyrchir angerdd yn ansawdd manwl ac agos Gibbs. Mae proses yn bwysig: trwy ddulliau o gerfio, castio a colaj, cyfunir cynildeb ac arbenigedd gyda munudau mân, diferiad a phwyth yn aros yn weledol. Yma, dengys cymeriad creu serameg gyda cholled manylder a rheolaeth, gan bortreadu natur ansicr, frau ein bodolaeth.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government